

Llais Llandyrnog Voice

 llandyrnognews@gmail.com

£1

Hydref 2026 – Cyfrol 12 – Rhifyn 1

Yr haelioni'n parhau



Roedd y gêm bêl-droed elusennol ar 4 Medi yng Nghae Nant yn llwyddiant ysgubol a chododd £1178 tuag at Glwb Pêl-droed Llandyrnog ac eglwys St Tyrnog. Trefnwyr y gêm oedd Grŵp Lles Staff Highfield Park. Roedd yn rhoi cyfle gwyh i'r rhai mae MHC Highfield Park yn eu cefnogi i fwynhau profiadau newydd, meithrin hyder, a bod yn rhan o ddigwyddiad cymunedol.

Diolch yn fawr i bawb a fu'n chwarae yn y gêm, yn helpu i drefnu'r digwyddiad, wedi rhoi o'u hamser am ddim, wedi gwyllo'r gêm, wedi rhoi gwobrau raffl, ac wedi helpu cleientiaid MHC i gymryd rhan a mwynhau'r diwrnod.



Mae'r gefnogaeth a gafodd teulu'r Ceffyl Gwyn yn y bore coffi diweddar tuag at Elusen Blant Alder Hey yn anhygoel. Mae Penny Hughes yn hynod ddiolchgar am y cyfraniadau i gyd, cyfanswm o £1355.

Ar gyfartaledd, mae boreau coffi yn Llandyrnog yn 2026 wedi codi £660 – y fath haelioni.



Newyddion y pentre

Croeso i Julia Jones i Faes Erw Isaf, gan obeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Cydymdeimlwn â theulu Llys Aled yn eu profedigaeth – Alun wedi colli ei fam Gwenfyl, Prion

Diolch i bawb a gefnogodd y bore coffi tuag at Eisteddfod Llandyrnog, gan godi'r swm ardderchog o £424.

Dymuniadau da i Charlie, 2 Maes Clwyd sydd wedi mynd i Seland Newydd.

Coffi a Sgwrs: Erbyn hyn, Coffi a Sgwrs sydd wedi cymryd lle'r clwb llyfrau a oedd yn digwydd am yn ail bore dydd Mawrth. Mrs Wyn Wilson a Mrs Sylvia Evans sy'n trefnu hyn, felly galwch heibio am baned, bydd croeso cynnes yn eich disgwyl.

MACMILLAN CANCER SUPPORT

Galwch heibio am goffi a chacen a chyfle i gyfrannu at yr elusen:

Dydd Mawrth, 20 Hydref

10am–1pm

yn yr Ystafelloedd Coco



yn Neuadd y Pentre

Nos Wener,

16 Hydref am

am 5 o'r gloch

Am ragor o fanylion:

Lona Meleri (07734 408608)

Iona Davies (07765 946809)

Croeso cynnes i bawb!

Ysgol Bryn Clwyd

Mae tair wythnos gyntaf y flwyddyn ysgol newydd wedi mynd yn dda, ac mae'r holl blant wedi

setlo'n hapus.

Mae Dosbarth

Tyfu wedi

dechrau ar eu

thema newydd,

sef ffermydd a

thyfu cnydau;

maen nhw wedi

bod yn gwneud

bara, ac maen nhw'n paratoi i ymweld â

fferm leol. Thema newydd Dosbarth Hedfan

yw bydoedd hudolus, ac maen nhw'n

paratoi ar gyfer taith i Landudno i weld y

cerfluniau o Alice yng Ngwlad Hud.

Llongyfarchiadau mawr i holl ddisgyblion

Dosbarth Hedfan a gymerodd ran yng

nghystadleuaeth Traws Gwlad Dyffryn

Clwyd.



Yr Ystafelloedd Coco

Llun 5 ^{ed}	Grŵp gweu Gild Trefoil	10am 2pm
Maw 6 ^{ed}	Coffi a sgwrs Grŵp cyfeillgarwch	10am 7pm
Mer 7 ^{fed}	Peintio a phaned Cyfarfod pwyllgor y <i>Llais</i>	12–3pm 7pm
Gwe 9 ^{fed}	Grŵp cwiltio	
Llun 12 ^{fed}	Grŵp gweu	10am
Mer 14 ^{eg}	Undeb y Mamau	2pm
Llun 19 ^{eg}	Grŵp gweu	10am
Maw 20 ^{fed}	Bore coffi MacMillan Cyngor Cymuned	10am– 1pm 7pm
Mer 21 ^{ain}	Tuesday Club	2pm
Llun 26 ^{ain}	Grŵp gweu	10am
Mer 28 ^{ain}	Peintio a phaned	12–3pm

Capel y Dyffryn

Sul 4 ^{ydd}	Diolchgarwch y plant	3pm
Sul 11 ^{eg}	Parch. Huw Pritchard	5pm
Sul 18 ^{fed}	Sul y Fro – y Fron	10am
Sul 25 ^{ain}	Parch. Andras Iago	11am

Eglwys St Tyrnog

Sul 4 ^{ydd}	Diolchgarwch	9.30am
Sul 11 ^{eg}	Cymun bendigaid Llan Llanast yn Neuadd y Pentre	9.30am 3.30pm
Sul 18 ^{fed}	Cymun bendigaid	9.30am
Sul 25 ^{ain}	Cymun bendigaid	9.30am

Neuadd y Pentre

Sad 3 ^{ydd}	Grŵp crefftau	10am–4pm
Llun 5 ^{ed}	Brownies Côr	5.30–7pm 7.30–9.30pm
Mer 7 ^{fed}	Pilates	7.15–8.15pm
Sad 10 ^{fed}	Bore coffi – Urdd Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd Cyngerdd – Côr Meibion Caerwys	10–11.30am 7–9pm
Sun 11 ^{eg}	Llan Llanast	3.30–5pm
Maw 13 ^{eg}	Clwb garddio	7–9pm
Mer 14 ^{eg}	Pilates	7.15–8.15pm
Gwe 16 ^{eg}	Eisteddfod Llandyrnog	5pm
Llun 19 ^{eg}	Brownies Côr	5.30–7pm 7.30–9.30pm
Mer 21 ^{ain}	Y Gymdeithas Hanes – Cyfarfod blynyddol a Thirfeddianwyr Ystad Castell Bodelwyddan	7–9pm
Iau 22 ^{ain}	Digwyddiad Ysgol Tremeirchion	5.30–8pm
Sad 24 ^{ain}	Bore coffi – STAND	10am–11.30
Llun 26 ^{ain}	Côr	7.30–9.30pm
Maw 27 ^{ain}	Y Gymdeithas Seryddiaeth	7.30–10pm

I logi'r **Ystafelloedd Coco**
cysylltwch â Carolyn Langford-Jones:
01824 790122 neu ar e-bost:
cocoaroomsbookings@gmail.com
I hurio **Neuadd y Pentre**, cysylltwch ag
Ivan Butler: 07799 570549 neu ar e-bost:
ivanbutler897@btinternet.com

Siop Llandyrnog

Roedd hi'n ansicr iawn a fyddai'r trydan yn dychwelyd mewn pryd ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y siop y mis diwethaf. Diolch byth, dychwelodd y trydan am 6.50pm, gan ein galluogi i arddangos lluniau gwych o brosiectau amrywiol a gynhaliwyd yn y siop dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae gofyniad cyfreithiol i 10% o'n cyfranddalwyr bleidleisio ar gamau gweithredu penodol yn y Cyfarfod Blynnyddol; o blith tua 314 o gyfranddalwyr, daeth 44 o bobl i'r digwyddiad, gyda 13 yn pleidleisio drwy ddirprwy.

Rhoddodd ein cadeirydd, Dr Patricia Mackinnon-Day, grynoded gwych o lwyddiannau a chynnydd y flwyddyn, gan gynnwys y prosiect 'man cynnes', grantiau ar gyfer paneli solar newydd, gweithgareddau celf a'r ardd sydd newydd ei dodrefnu. Pwysleisiodd Tricia mai ei bobl oedd cryfder mwyaf y sefydliad, a thalodd deyrnged arbennig i Emma, gan nodi'r croeso cynnes y mae'n ei roi a'i gallu i adnabod cwsmeriaid a chofio'u henwau!

Cyflwynodd Ian Wilson Adroddiad Ysgrifennydd y Cwmni, a oedd yn ymdrin ag adrannau ariannol a gweinyddol y cyfarfod. Talodd Ian deyrnged i'r rhwydwaith helaeth o wirfoddolwyr, gan gynnwys Ivan Butler sy'n darparu arbenigedd ariannol di-fai i'r siop gan arbed llawer o arian a fyddai fel arall yn gorfod cael ei dalu i gyfrifwyr.

Dangoswyd gwerthfawrogiad mawr i Ivan gan y cyfranddalwyr gyda chymeradwyaeth!

Nododd Ian sawl blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf megis:

- Recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol
- Annog pobl newydd i ymuno â'r Bwrdd
- Cynnal masnachu a'i ddatblygu
- Parhau i sicrhau cyllid drwy grantiau
- Symud ymlaen â gosod to newydd
- Ystyried gosod rhagor o baneli solar
- Datblygu prosiectau cymunedol ychwanegol.

Efallai yr hoffech chi ymuno â'r bwrdd a rhannu sgiliau a phrofiad ychwanegol â ni i helpu i barhau â'r gwaith da?! Cyflawnwyd y dyletswyddau swyddogol yn gyflym, gyda'r holl gyfranddalwyr yn pleidleisio i gymeradwyo'r cyfrifon ac ailbenodi'r bwrdd cyfarwyddwyr presennol. Yn olaf, yr anogaeth a gynigiwyd i ddenu cynifer o gyfranddalwyr â phosibl i'r cyfarfod oedd hamper gwych Kayleigh. Cafodd pob cyfranddaliwr ei gynnwys yn y raffl, a enillwyd gan Jackie Le Fèvre – a oedd yn haeddu'r wobr yn llwyr yn dilyn ei gwaith caled fel cadeirydd yn y blynnyddoedd blaenorol!! I gael copi llawn o gofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, ewch i'n gwefan, www.llandyrnogshop.com.

Siop Llandyrnog

Oriau agor y siop

Llun	8am – 5.30pm
Mawrth	8am – 5.30pm
Mercher	8am – 5.30pm
Iau	8am – 5.30pm
Gwener	8am – 5.30pm
Sadwrn	8am – 4pm



07301 573362
01745 422099



info@llandyrnogshop.com



[ShopLlandyrnog](https://www.facebook.com/ShopLlandyrnog)



Llandyrnogshop.com

Oriau agor y swyddfa bost

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.

Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

Capel y Dyffryn



Cawsom gyfle i ymuno â Phererindod Bro Dinbych ar fore braf ddiwedd haf i Dŷ Mawr, Wybrnant, cartref hynod bwysig i ni fel Cristnogion Cymraeg.

Ar ôl camu'n ofalus i lawr y grisiau llechi drwy'r goedwig fechan, cawsom gyfle yn gyntaf i grwydro'r gerddi tu allan, a mynd i'r tŷ, cyn cael sgwrs hynod o ddiddorol gan Fflur o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Eglurodd mai yma yn Nhŷ Mawr y cafodd William Morgan ei eni tua 1545, a'i fagu. Yn ôl traddodiad, cafodd ei addysgu adre yn Nhŷ Mawr Wybrnant gan hen fynach a oedd, yn ôl pob sôn, wedi dod o hyd i loches yno ar ôl diddymu'r mynachlogydd. Mae sôn hefyd ei fod wedi cael ymuno efo plant teulu Wynn, Gwydir i gael addysg well na'r cyffredin.

Erbyn 1565, roedd ar ei ffordd i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt, lle datblygodd ei wybodaeth o ieithoedd a diwinyddiaeth. Mae'n bosib ei fod wedi dechrau ar y gwaith o gyfieithu'r Beibl cyn gadael y coleg, ond mae'n sicr mai yn Llanrhaeadr ym Mochnant y gorffennodd ei orchest fawr – ar ben dyletswyddau ficer y plwyf. Bu yn Llundain o 1587 tan ddiwedd 1588 i oruchwylio'r gwaith argraffu, gan gael aros yn Nhŷ'r Deon efo teulu Gabriel Goodman (Rhuthun) a fu'n ei gynorthwyo.

Eglurodd Fflur nad oedd ond rhyw ddwsin o gyfieithiadau o'r Beibl cyn 1588 (e.e. Ffrangeg, Eidaleg, Saesneg) a'i bod hi'n wyrthiol bod y Frenhines Elizabeth wedi rhoi

ei chaniatâd – ei bwriad oedd defnyddio'r Gymraeg fel pont dros dro i Brotestaniaeth a'r iaith Saesneg. Ond cafodd y penderfyniad hwn effaith hollol groes i hynny, ac achub yr iaith Gymraeg drwy roi statws swyddogol uchel iddi a safoni'r iaith ysgrifenedig. Yn ôl Wyn James, “Pe na bai'r Beibl wedi'i gyfieithu bryd hynny, mae'n amheus fyddai'r Gymraeg wedi goroesi.”

Aethom wedyn i'r Llyfrgell newydd, y drws nesaf i'r tŷ, lle mae Beiblau o wahanol wledydd y byd wedi eu rhoi'n rhodd gan wahanol bererinion yn ystod y blynyddoedd. Roedd yr ysgol leol wedi gwneud prosiect gwych yn canolbwyntio ar roddwyr unigol, a'r cymhelliad tu ôl i'r rhodd. Yng nghanol yr holl Feiblau, daethpwyd o hyd i'r Beibl Eidalaidd a brynwyd yn yr Eidal gan Elen, Berth a'i gŵr yn 2005, gan nad oedd Beibl Eidalaidd yno ar y pryd.

Yn y llyfrgell, cafwyd gwasanaeth byr a ffeithiau diddorol gan Andras ein gweinidog e.e. erbyn 2025, mae gan 197 miliwn o bobl Feibl yn eu hiaith eu hunain, ac mae gwerthiant Beiblau yn cynyddu – bron i 400,000 y llynedd.

Mwynhaodd bawb ginio Sul blasus yn y Llew Gwyn, Cerrigydrudion ar y ffordd adref, a diolchwyd yn gynnes iawn i Andras am drefnu'r Bererindod.



Y Clwb Garddio

Dechreuodd ein rhaglen y gaeaf ym mis Medi gyda sgwrs am arbed arian gan Dawn Gough. Rhoddodd Dawn ddigonedd o syniadau i bawb ar sut i arbed arian yn yr ardd. O olchi cartonau llaeth a defnyddio'r dŵr llaethog i fwydo eich planhigion, i ddefnyddio hen siwmperi i leinio basgedi



crog – roedd digonedd o syniadau defnyddiol a chreadigol. Cawsom hefyd ddigon o syniadau crefftus, gan

gynnwys defnyddio hen duniau ffa pob, wedi'u golchi, eu hongian yn y coed a'u llenwi â hadau i fwydo'r adar gwyllt. Roedd defnyddio cynwysyddion plastig clir fel tai gwydr bach hefyd yn syniad gwych i helpu hadau i egino.



Oeddech chi'n gwybod bod gwirod gwyn yn tynnu sudd gludiog oddi ar offer garddio? Ac wrth i ni wynebu misoedd y gaeaf, beth am storio eich offer garddio mewn bwcedi o dywod gyda WD40? Bydd hyn yn helpu i'w cadw'n lân ac yn rhydd o rwd drwy gydol misoedd hir y gaeaf.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 13 Hydref am 7yh. Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol byr ar ddechrau'r cyfarfod. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, mae croeso ichi gysylltu â ni. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan sesiwn holi ac ateb gyda'n 'panel o arbenigwyr' ein hunain! Anfonwch eich cwestiynau garddio atom drwy e-bost, a bydd ein panel yn gwneud eu gorau i'w hateb.

Y Gymdeithas Seryddiaeth

Mae mis Hydref yn dod â nosweithiau hirach a chyfres gyffrous o ddigwyddiadau seryddol a chawodydd meteorau. Bydd Cawod Feteorau y Ddraig (6–10 Hydref, gyda'r brig tua 9 Hydref) yn cael ei chreu gan lwch o gomed 21P/Giacobini-Zinner, a'r amser gorau i'w gwyllo fydd yn gynnar gyda'r nos. Yn ystod mis Hydref, bydd y blaned Gwener yn pasio rhwng y Ddaear a'r Haul, gan newid ei gwelededd dros dro i awyr y bore, lle bydd yn ymddangos fel gwrthrych llachar, siâp cilgant. Gobeithiwn gael cyfle i wneud rhai arsylwadau yn ein cyfarfod nesaf, ar 27 Hydref am 7.30pm yn yr Ystafell Isaf yn Neuadd Bentref Llandyrnog. Bydd Chris yn rhoi sgwrs am Ffotograffiaeth Seryddol ac yn rhoi diweddariad ar y gweithdai a'r gwaith gyda'r Amgueddfa yn Ninbych.



Byddwn hefyd yn dysgu mwy am Mary Anna Draper (19 Medi 1839 – 8 Rhagfyr 1914), a elwid hefyd yn Mary Anna Palmer Draper. Roedd yn seryddwraig ac yn wraig ddyngarol Americanaidd a wnaeth gyfraniadau arloesol ym maes ffotograffiaeth seryddol. Gan weithio ochr yn ochr â'i gŵr, Henry Draper, chwaraeodd ran allweddol yn natblygiad cynnar sbectrosgopeg serol – sef y broses o dynnu lluniau ac astudio sbectra'r golau a allyrrir gan sêr.

'Daliwch i syllu ar yr wybren'

Cawl Pwmpen Cyri

Cynhwysion

1kg /2 bwys 4 owns pwmpen, wedi'i phlicio, yr hadau wedi'u tynnu, a'r cnawd wedi'i dorri'n ddarnau 7cm/2¾"

3–4 llwy fwrdd olew olewydd

1 llwy de halen, a mwy os oes angen

1 llwy de powdr tsili

1 llwy de coriander mâl

1 llwy de cwmin mâl

1 nionyn, wedi'i dorri'n fras

3 tomato, wedi'u torri'n chwarteri

6–8 ewin garlleg, wedi'u gwasgu a'u plicio

400ml llaeth cnau coco (un tun)

Pupur du wedi'i falu'n ffres

Ar gyfer y tarca

4 llwy fwrdd olew llysiau

1 llwy de hadau cwmin

1 llwy de hadau mwstard du

4–6 ewin garlleg, wedi'u sleisio'n denau

1–3 tsili jalapeño gwyrdd, wedi'u sleisio'n denau

Dull

Cynheswch y popty i 180°C/160°C gyda ffan/Nwy 4. Rhwbiwch yr olew dros y bwmpen ac ysgeintiwch yr halen, y powdr tsili, y coriander mâl a'r cwmin mâl drosti. Rhowch y bwmpen mewn tun rhostio mawr, ynghyd â'r winwnsyn, y tomatos a'r garlleg. Rhostiwch am 1–1½ awr, gan droi'r cynhwysion bob 30 munud i sicrhau bod popeth yn feddal ac wedi caramelleiddio. (Mae pwmpenni'n amrywio'n fawr o ran faint o amser sydd ei angen arnynt i goginio; po fwyaf o ddŵr sydd ynddynt, yr hiraf y byddant yn ei gymryd.)

Unwaith y bydd y llysiau'n dyner, rhowch bopeth o'r tun rhostio mewn prosesydd bwyd a'i gymysgu gyda'r llaeth cnau coco nes ei fod yn llyfn. Arllwyswch y gymysgedd i sosban fawr neu ddysgl gaserol a'i chadw'n gynnes. Ychwanegwch halen a phupur at eich dant. Adiwhch ychydig o ddŵr os oes

angen i deneuo'r cawl.

I wneud y tarca

Cynheswch yr olew yn y sosban leiaf sydd gennych ac ychwanegwch yr hadau cwmin. Pan fyddant yn dechrau clecian, ychwanegwch yr hadau mwstard du, yr arlleg a'r tsilis. Coginiwch am 1 munud, nes bod yr arlleg wedi brownio'n ysgafn iawn, yna tynnwch y sosban oddi ar y gwres. Arllwyswch y tarca dros y cawl ar unwaith gan ddefnyddio llwy, a gorchuddiwch â chaead. Gadewch am 5 munud cyn cymysgu'r tarca i mewn i'r cawl a'i weini. *Mwynhewch!*

Iestyn Jones Evans



Cyngerdd

**Côr Meibion Caerwys
a cherddorion ifanc lleol:
Llio Salisbury
Mali Tudur
Hawys Owen-Casey
Alys Wyn**

**Nos Sadwrn 10 Hydref am 7
Neuadd y Pentre, Llandyrnog
Tocynnau £10, plant am ddim
Yr elw at Eglwys St Tyrnog**



Hanesion Hazel



Mae cyrraedd 60 oed yn garreg filltir sy'n nodi symud tuag at ryddid personol dwys, derbyn eich hun am yr hyn rydych chi, a chanolbwyntio o'r newydd ar yr hyn sy'n wirioneddol o bwys. Mae sawl un yn dweud bod hyn yn gallu bod yn ddechrau pennod newydd a chyffrous, wedi'r cyfan, dim ond rhif yw 60. Ar gyfer fy mhen blwydd yn 60, penderfynais wneud rhywbeth ychydig yn wahanol a mynd ar ddwy daith – un heddychlon ar hyd gamlas Llangollen dros ddyfrbont Pontcysyllte, ac un llawn stêm ar reilffordd Llangollen.

Mae dyfrbont Pontcysyllte yn cludo camlas Llangollen dros afon Dyfrdwy. Cychod cul sydd i fod i ddefnyddio'r bont 19 bwa o garreg a haearn bwrw a gafodd ei chwblhau yn 1805 ar ôl deng mlynedd i'w dylunio a'i hadeiladu. Y peirianwyr sifil Thomas Telford a William Jessop a'i dyluniodd ac mae'n olygfa wirioneddol drawiadol. Ond fe allai'r uchder wneud i'ch pen chi droi.

Fe ymunon ni â'r cwch ar y gamlas ym Mroncysyllte, ar ôl taith fer ar fws o lanfa Llangollen. Dyma'r ddyfrbont uchaf yn y byd, 126 troedfedd/38 metr, ac mae'n Safle Treftadaeth Byd UNESCO. Dydy'r uchder llawn ddim yn dod yn amlwg nes i chi

ddechrau mynd ar ei thraws – does dim rheilen ar un ochr, ac mae fel petai'r cwch yn ei wasgu ei hun i mewn i'r cafn (o blatiau haearn bwrw). Yn aml mae'n taro'r ochrau, a phawb yn dal eu gwynt. Sgrechiodd un ddynes y tu ôl i mi a threulio'r daith gyfan o dan y bwrdd. Roedd hi heb sylweddoli pa mor uchel roedden ni a bu ei gŵr yn ei chysuro nes i ni gyrraedd y pen draw yn ddiogel. Ond fe wnes i fwynhau'r olygfa, gydag afon Dyfrdwy oddi tanon ni ac yn y pellter, y Bont Cysyllte hanesyddol (neu y Bont yn lleol) sydd hefyd yn mynd ar draws afon Dyfrdwy.

Daeth y daith i ben yn fuan ac wedyn mwynhau taith bleserus 4 milltir yr awr yn ôl i lanfa Llangollen. Mae'r gamlas yn culhau wrth nesáu at Langollen oherwydd cafodd ei hadeiladu'n wreiddiol fel ffos i gyflenwi dŵr yn hytrach nag i gludo cychod masnachol. Mi wnaethon ni achosi ychydig o 'dagfa traffig', yn mynd heibio sawl cwch. Fel arfer mae rhai sy'n llywio cychod yn rhoi rhywun ar y llwybr wrth ochr y gamlas i gadw llygad am gychod yn dod i gyfarfod â nhw, ond ymlaen â ni.

Yn ôl yn Llangollen, fe es i ar ffurf hanesyddol arall o gludiant – Rheilffordd Stêm Llangollen. Roedd y daith hiraethus hon drwy'r amser yn cipio golygfeydd, synau a swyn teithio ar drên stêm. Dechrau'r daith oedd gorsaf Rheilffordd Llangollen, ar lan dyfroedd byrlymus afon Dyfrdwy. Aroglau mwg glo a hisian stêm yn dianc oedd yn fy nghroesawu. Roedd y trên yn llawn dop a'r unig sedd wag oedd yn fan y giard. Yno mi wnes i gyfarfod â dynes leol o Garrog a oedd yn teithio'n rheolaidd – dyma'i thaith i'r gwaith, ac am daith! Roedd ffenestri'n agor drwy eu tynnu i lawr yn y cerbyd yma ac roeddwn i'n gallu rhoi fy mhen allan a gwyllo'r mwg gwyn o'r injan a theimlo'r huddyg yn yr awr. Da o beth i mi gofio tynnu



Hanesion Hazel



fy mhen yn ôl i mewn i'r cerbyd cyn twnnel y Berwyn. Roedd y cerbyd yn lle da i fwynhau'r olygfa gan fod y trên yn dilyn afon Dyfrdwy bron ar ei hyd ac roeddwn yn gallu mwynhau edrych ar y llechweddau a'r tir amaeth.

Daeth y daith 10 milltir o hyd i dref hanesyddol Corwen ac yn ôl i ben yn rhy gyflym o lawer, ac yn fuan roeddwn yn ôl yn Llangollen. Pen blwydd 60 oed gwirioneddol gofiadwy.

Hazel

UNCOMPROMISING QUALITY,
TRUSTED RESULTS – INVEST WISELY IN
THE BEST!

- ✓ CARPET CLEANING
- ✓ UPHOLSTERY CLEANING
- ✓ HARD FLOOR CLEANING

07873 751919
www.extremecleanz.co.uk

CONTACT US

Llan Llanast



Yn ein sesiwn ym mis Medi, sef ein sesiwn 'yn ôl i'r ysgol', buom yn trafod priodasau. Mae Rachel, un o gefnogwyr ffyddlon Llan Llanast yn priodi ym mis Hydref, ac felly mae hwn yn gyfnod arbennig iawn iddi. Onid yw hi'n edrych yn hyfryd iawn yn y llun?

Yn ogystal â gwneud bwa blodau, gwnaethom fatiau diodydd siâp cacen, bwnsieidiau o flodau, dalwyr canhwyllau te wedi'u haddurno â chalonnau, a buom yn addurno dynion a merched sinsir i edrych fel y briodferch a'r priodfab. Clywsom stori'r briodas yng Nghana, lle gwnaeth lesu ei wyrth gyntaf drwy droi dŵr yn win. Byddwn yn ôl **11 Hydref**, felly beth am ddod draw ac ymuno yn yr hwyl? Blant, cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi!

Roedd yn wirioneddol ddrwg gennm glywed bod un o gefnogwyr mwyaf pybyr Llan Llanast heb fod yn hwylus yn ddiweddar – dymunwn yn dda iddi fel ei bod hi'n gallu mwynhau priodas Rachel!

Rhifau ffôn defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer

Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan

i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

Undeb y Mamau

Yn ein cyfarfod ym mis Medi, gwnaethom ni gynnwys gweddi arbennig iawn i goffáu pen-blwydd arbennig Undeb y Mamau. Ers 150 mlynedd, mae Undeb y Mamau wedi bod yn weithgar, gyda thros 4 miliwn o aelodau mewn mwy na 80 o wledydd. Mae Undeb y Mamau'n gweithio gyda phobl o bob ffydd a chyda'r rhai heb ffydd, gan drawsnewid bywydau a chryfhau teuluoedd a chymunedau. Wedi'i wreiddio mewn caredigrwydd, ffydd a gweithredu tosturiol, mae Undeb y Mamau yn ymdrechu i greu dyfodol gwell lle mae pawb yn cael cyfle a'r adnoddau i ffynnu.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Carolyn am drefnu gweithgaredd crefft a oedd yn gwneud inni feddwl mewn ffordd wahanol. Cawsom gyfle i adael i'n dychymyg hedfan yn rhydd a chreu rhywbeth na fyddem, mae'n debyg, erioed wedi meddwl y gallem ei wneud!

Gild Trefoil

Cafodd aelodau Trefoil sgwrs ddiddorol iawn am fâs a gafodd ei chludo i'r *Antiques Roadshow*. Roedd yn fâs brin o waith crochenwaith Davenport, a dim ond tair ohonyn nhw sy mewn bodolaeth. Cawsom wybod popeth am brofiad yr *Antiques Roadshow*, yn ogystal â'r ymchwil a wnaed i hanes y fâs. Tynnwyd y raffl, ac yna mwynhawyd te a bisgedi. Bydd nwyddau ymolchi yn cael eu casglu yn y cyfarfod nesaf i'w rhoi i'r Banc Bwyd.



Townsend Supplies

Townsend, Denbigh LL16 3AW
01745 814918

**For all farmyard & agricultural
accessories & building supplies**

- » Tanalised timber
- » Concrete posts
- » Panel fencing
- » Water pipe fittings
- » Water tanks
- » Sand
- » Cement
- » Concrete blocks

GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

**GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I
LAWR**

01745 815141

07808970364

Diwrnod y Crynwyr, 4 Hydref

Ddydd Sul, 30 Awst, daeth y Crynwyr at ei gilydd am yr ail waith yn yr Ystafelloedd Coco. Fel arfer rydyn ni'n cyfarfod yng Nghanolfan Naylor Layland yn Rhuthun am 10.30 ar fore Sul, heblaw am bumed Sul y mis, pan rydyn ni'n cyfarfod yn Llandyrnog.

Dechreuodd mudiad y Crynwyr yn yr ail ganrif ar bymtheg fel mudiad crefyddol o bobl a oedd wedi eu hargyhoeddi bod yr unigolyn yn gysylltu cysylltu'n uniongyrchol â Duw, heb fod angen cyfryngwr. Felly mae gwreiddiau'r Crynwyr mewn Cristnogaeth, ond pan ddewisodd pobl beidio â chydymffurfio, câi'r rheiny a ddilynodd y Crynwyr eu herlyn.

Câr dy gymydog



Mae Crynwyr heddiw yn grŵp o bobl amrywiol sydd ddim yn dilyn credoau arbennig ac sy'n pwysleisio eu bod yn holl gynhwysol. Rydyn ni'n grŵp o ffrindiau ar daith ysbrydol yng nghwmni ein gilydd, heb neb yn uwch na'r llall, dim ond yn unigolion â chyfrifoldebau sy'n hwyluso cyfarfodydd. Serch hynny, er nad oes credoau penodol,

mae gan Grynwyr werthoedd y maen nhw'n gweithio tuag atyn nhw ac yn anelu tuag atyn nhw – bywyd syml, heddwch, gonestrwydd, cymuned, cydraddoldeb a gofalu am y blaned. Felly mae pobl o bob math o gredoau crefyddol ym mhob grŵp o Grynwyr – Cristnogion traddodiadol, rhai sy'n credu mewn duw, rhai nad ydyn nhw'n credu mewn duw, amheuwyr, a rhai o grwpiau eraill fel Bwdhyddion. Mae 'addoli' yn ffurf ar chwilio am lonydd o fewn eich hun (arfer sydd mewn crefydd eraill), ond hefyd yn cydnabod o wneud hyn gydag eraill. Hefyd gellir mynegi barn a chredoau personol yn rhydd.

Mae pwyslais cryf hefyd ar wrando, p'run ai ar unrhyw gymhelliad sy'n dod o'ch llonyddwch mewnol chi, neu ar beth bynnag byddai rhywun arall am ei rannu ag unigolyn neu'r grŵp. Gallai hynny fod yn rhywbeth trist neu sy'n peri gofid, neu rywbeth hapus a llawen, neu hyd yn oed ddim ond yn ddiddorol. Mae'r sgwrs yn eang iawn ac yn aml ceir digon o chwerthin.

Mae'r cyfarfodydd yn yr Ystafelloedd Coco yn para am 40 munud ac mae paned a bisged yn dilyn. Croeso i chi ddod i'r cyfarfod y tro nesa y byddwn ni yno, neu dewch am baned ar ddiwedd y cyfarfod.

Sian Gwyn Ifan

Bore Coffi

Bore Sadwrn,

10 Hydref

yn Neuadd y Pentre
am 10 o'r gloch

Y stondinau arferol

Yr elw at Urdd Cyfeillion Ysbyty
Glan Clwyd



Gair gan ein Cynghorydd Sir



Mi ges i'r anrhydedd eleni o gael gwahoddiad i fod yn Llywydd Sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog, ac roedd yn bleser gen i ei dderbyn.

Roedd safon y sioe yn eithriadol, yn enwedig ag ystyried yr haf sych a wnaeth tyfu bron iawn unrhyw beth yn her. Roedd y blodau, y llysiau a'r cynnyrch arall yn glod i bawb a fu'n cystadlu, a'r adrannau crefftiau, celf a ffotograffiaeth yr un mor drawiadol. Roedd y sioe gŵn hefyd yn llwyddiannus iawn ac yn ychwanegu at ddigwyddiad cymunedol difyr iawn.

Mae digwyddiad fel y Sioe Flodau yn dod â'r pentre at ei gilydd go iawn ac mae'r trefnwyr yn haeddu pob clod am eu hamser, eu hymdrech a'u brwdfrydedd wrth sicrhau ei bod hi'n digwydd bob blwyddyn.

Erbyn i'r cylchgrawn yma fynd i'r wasg, bydd cyfarfod blynyddol Siop Gymunedol Llandyrnog wedi bod. Dwi wedi cael golwg sydyn ar y ffigyrau ymlaen llaw ac mae'r siop yn mynd o nerth i nerth, yn ôl pob golwg. Mae'n rhan bwysig o fywyd y pentre ac yn haeddu ein cefnogaeth.

Hefyd, rhaid i ni beidio ag anghofio siop grefftiau ardderchog Tŷ Ceffyl Bach, dan reolaeth Angie gyda help Graham. Mae'n enghraifft wych arall o'r fenter a'r ysbryd cymunedol sydd yma yn Llandyrnog.

Mae dau le gwag ar y Cyngor Cymuned, felly os hoffech chi ymuno â'r cyngor a helpu i gynrychioli'r gymuned, cysylltwch â Bryn Davies, y Clerc am ragor o fanylion (rbrynd1@gmail.com). Mae cynghorau lleol yn dibynnu ar bobl yn bod yn barod i roi ychydig o'u hamser a chware rhan ym mywyd y pentref.

Yng Nghyngor Sir Dinbych, mae newid sylweddol wedi bod hefyd. Ar 8 Medi, cafodd y Cynghorydd Hugh Evans ei ethol yn arweinydd newydd y Cyngor. Dymunaf yn dda iddo yn y swydd. Mae heriau mawr yn wynebu'r awdurdod, a dwi'n gobeithio y bydd yr arweinydd newydd yn sefydlogi'r cyngor ac yn canolbwyntio ar ddarparu ar gyfer ein cymunedau.

Os gallaf i, fel eich Cynghorydd Sir, eich helpu chi gydag unrhyw beth, cysylltwch â fi – mae'r manylion isod.

Cyng. Merfyn Parry

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook



Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd

becky.gittins.mp@parliament.co.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

Mynd am dro yn ardal Llandyrnog

Rwy'n teithio i Landyrnog yn rheolaidd i weld fy rhieni, Chris a Ruth Griffith. Mae cyrraedd y pentref a gweld y rheiliau gwyn ger y Kinmel a'r hysbyseb am fore coffi yn bleser mawr – rhyddhad mawr ar ôl anhrefn yr M62. Rwy'n adnabod pob modfedd o'r draffordd ofnadwy honno!

Yn y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi bod ar nifer o deithiau cerdded lleol – dwi'n meddwl nad oes unrhyw le yn harddach na Dyffryn Clwyd. Rydych chi'n freintiedig iawn i fyw yma.



Mae Llwybr y Fonesig Bagot yn un o fy hoff deithiau. Adeiladwyd y llwybr hwn gan yr Arglwydd Bagot yn y 1850au fel ffordd breifat i gerbydau ar hyd Afon Clywedog, rhwng Pool Park a Bontuchel, er mwyn i'w wraig allu gyrru ei cherbyd ar ôl y gwasanaeth eglwysig ar ddydd Sul.

Dwi'n parcio yn y maes parcio rhad ac am ddim yn Rhewl ac yn croesi'r ffordd i ddechrau'r llwybr – taith gerdded syfrdanol o

ryw 2½ milltir yn dilyn glannau Afon Clywedog. Mae twnnel o ganghennau coed yn amgylchynu'r llwybr – mae'r patrymau golau a welir ar ddiwrnodau heulog yn wirioneddol hyfryd. Mae'r afon yn byrlymu, a dwi wedi gweld glas y dorlan yno hefyd.

Wrth gyrraedd pen y llwybr, trowch i'r dde a byddwch yn mynd yn ôl drwy'r goedwig binwydd odidog. Mae'r distawrwydd ac arogl y coed yn rhywbeth arbennig iawn.

Mae *Smartflower* syfrdanol i'w gweld ar ddiwedd y daith gerdded. Mae hon yn strwythur eiconig sy'n symud ac yn edrych fel blodyn yr haul; mae'n darparu ynni i'r cartref sydd â'r blodyn yn ei ardd.

Rhaid i chi fynd ar y daith gerdded hon os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes!

Caroline Allison



Enghraifft o Smartflower. Mae'n darparu 40% yn fwy o drydan na phaneli sefydlog ar y to. Mae ei phetalau yn agor yn y bore ac yn dilyn yr haul drwy'r dydd i gael cymaint o drydan â phosib.

Gair gan yr offeiriad



Mae'r hydref yma, ac fel arfer yr adeg hon o'r flwyddyn, gallwn weld pa mor brysur yw'r ffermwyr yn cynaeafu eu cnydau. Hyd yn hyn, mae'r dyddiau wedi bod yn dyner hefyd, gyda chyfnodau o haul yn rhoi cyfle i ni fwynhau ein cefn gwlad hardd cyn i'r gaeaf gyrraedd.

Gyda'i liwiau hardd, ei awyr ffres a sibrwd ysgafn o newid, mae'r hydref yn ein hatgoffa'n bwerus o law ein Creawdwr sy'n bresennol ym mhob man. Gadewch i ni oedi ac ystyried y gwersi ysbrydol y mae'r hydref yn eu cynnig yn hael, wrth i ni fyfyr ar harddwch y tymor a darganfod sut mae'n siarad â'n ffydd:

Wrth i ni ddathlu'r cynhaeaf yn ein gwasanaethau a'n swperau cynhaeaf, gallwn gael ein llenwi unwaith eto â rhyfeddod daioni Duw. Bob blwyddyn, rydym yn profi toreth y ddaear, o'r cnydau a gynaeafwn i'r bendithion yr ydym yn aml yn eu cymryd yn ganiataol. Mae'n hawdd anwybyddu'r pethau bach, ond pan gymerwn amser i dawelu a myfyr, gwelwn fod llaw Duw ym mhob rhan o'n bywydau. Mae Ei ffyddlondeb yn darparu ar ein cyfer, ac mae Ei gariad yn bresenoldeb cyson. Mae llawer ohonoch efallai'n gwybod am draddodiadau cynhaeaf anarferol ledled y byd, ac efallai eich bod hyd yn oed wedi profi rhai ohonynt. Yn Japan, mae gŵyl o'r enw "Oeshiki", i ddathlu'r cynhaeaf reis. Mae pobl yn cerdded drwy'r strydoedd gyda llusernau enfawr, gan eu troelli fel llafnau

hofrennydd! Yn y cyfamser, mewn rhannau o Sbaen, maen nhw'n dathlu'r cynhaeaf grawnwin drwy neidio i mewn i fasnau o rawnwin a'u sathru yn droednoeth. Mae'n debyg i wneud gwin, ond hefyd yn fath o wasgu eithafol!

A beth am hwn? Yn y Swistir, mae traddodiad lle mae plant yn gwisgo dail a changhennau, yn gorymdeithio drwy'r dref, ac yna... mae'r trigolion yn rhedeg ar eu hôl â chlychau buwch! Dwi ddim yn siŵr beth sydd gan hynny i'w wneud â'r cynhaeaf, ond dyna ni. Mae'n gwneud yr arfer o addurno'r eglwys â rhoddion y cynhaeaf yn ymddangos braidd yn ddiniwed.

On er bod traddodiadau'r cynhaeaf yn amrywio ledled y byd, mae ganddyn nhw oll rywbeth yn gyffredin: diolchgarwch. Boed yn reis, yn rawnwin neu'n wenith, y cynhaeaf yw'r adeg pan rydym yn oedi i ddiolch am yr hyn y mae'r tir wedi'i gynhyrchu.

Gadewch i ni gymryd eiliad i feddwl sut mae'r cynhaeaf yn gweithio mewn gwirionedd. Mae gwaith ynghlwm wrth gynaeafu – aredig, plannu, dyfrio, ac yn olaf, y gwaith o hel y cnwd ei hun. Yn yr un modd, mae lesu wedi paratoi a meithrin calonnau, ond mae'n gofyn i ni wneud y gwaith o hel.

Ar adeg y Cynhaeaf, rydym yn diolch ac yn moli Duw am ei holl roddion o fwyd a thywydd, yn enwedig ei blanhigion sy'n aeddfedu yn yr hydref ac yn rhoi maeth i ni ac anifeiliaid y fferm drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Cynhaeaf hefyd yn gyfle i ddiolch ac i foli Duw am yr holl greaduriaid sy'n symud yn y dyfroedd, yn hedfan yn yr awyr ac yn byw ar y tir.

Mae'r Cynhaeaf yn ein hatgoffa bod holl greaduriaid y ddaear yn gymuned a grëwyd i ganmol a gogoneddu Duw. Gadewch i ni lawenhau yn harddwch yr hydref a chario ei wersi gyda ni drwy gydol y flwyddyn. Amen.

Y Barch. Ganon Juliet Fraser

Y Tuesday Club



Yng nghyfarfod mis Medi, cawsom hanes taith ein trysorydd, Margaret Williams, a'i theulu i'r

Aifft. Prif bwrpas y daith oedd dilyn ôl traed hynafiaid Margaret a oedd yn bobl fusnes hynod lwyddiannus yng Nghairo, Port Said a Khartoum. Roedd y stori'n un hynod ddiddorol ac eithaf anghredadwy, cymaint oedd llwyddiant y Cymry.

Bydd y cyfarfod nesaf bnawn dydd Mercher, 21 Hydref am 2 o'r gloch yn yr Ystafelloedd Coco. Edrychwn ymlaen at sgwrs gan gyn-Brif Arolygydd yr Heddlu, Mark Owen, sydd wedi gwirioni gyda'i dractor ac yn berchen ar braidd o alpacas! Bydd croeso cynnes yn disgwyl aelodau newydd.

Grŵp Cyfeillgarwch

Roedd y cyfarfod diwethaf yn y siop, pan gawson ni sgwrs ar daith ddiweddar Helen a Steve Juckes-Hughes i Fongolia. Rhoddodd y sgwrs olwg hynod ddifyr ar y wlad a'i phobl.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ystafelloedd Coco nos Fawrth, 6 Hydref am 7 o'r gloch. Hefyd cafodd y grŵp ddiwrnod allan a chinio yn Moreton Park.

Bore coffi

Dydd Sadwrn, 24 Hydref
yn neuadd y pentre am 10am

Yr elw at



*Stronger Together for Additional
Needs and Disabilities*

H G Web DESIGNS

SERVICES - GWASANAETHAU

WEBSITES
GWEFANNAU

EMAILS
EBYST

SOCIAL MEDIA
CYFRYNGAU
CYMDEITHASOL

TYPESETTING & PRINTING
GWAITH CYSODI
AC ARGRAFFU

www.hgwebdesigns.co.uk

 hannah@hgwebdesigns.co.uk  07984 511164

TY CEFFYL BACH



07768 331488



www.tyceffylbach.co.uk

info@tyceffylbach.co.uk

4 Kinmel Terrace, Llandyrnog



- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- Open 11-4pm, Tues-Sat



Y Cyngor Cymuned

Cafodd y Cynghorydd Powell groeso cynnes i'w chyfarfod cyntaf.

- ♦ Roedd y plismon cymunedol yn y cyfarfod, ac o'r ugain digwyddiad a gafodd eu riportio yn yr ardal, dim ond dau oedd yn Llandyrnog – y naill am ddamwain ar y ffordd a'r llall am ddyn yn cynnig cael gwared ar darmac a oedd dros ben o waith lleol. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gwerthfawrogi gwybodaeth leol sy'n eu helpu nhw i gael hyd i'r cerbydau a gweld a oes patrwm yn dod i'r golwg yn yr ardal. Dylech drosglwyddo negeseuon fel hyn ar 101 neu ar-lein, o ddewis.
- ♦ Penderfynwyd cefnogi MHC yn llawn gyda'u prosiect coeden Nadolig a chynnig unrhyw gyngor neu arweiniad angenrheidiol.
- ♦ Mae'r Cynghorydd Patricia Mackinnon-Day wedi ymddiswyddo o'r cyngor. Derbyniwyd cais Tom Ward i fod yn gynghorydd cymuned yn unfrydol. Mae dwy sedd yn wag o hyd ac mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno i'r cyngor gyfethol aelodau. Bydd hysbyseb yn cael ei rhoi ar y wefan ac ar hysbysfwrdd y cyngor cymuned.
- ♦ Rhoddodd y Cynghorydd Parry y newyddion diweddaraf am safle Ysbyty Gogledd Cymru. Dydy'r cynllun ddim yn dod yn ei flaen gystal â'r disgwyl oherwydd rhagor o broblemau gyda phroblemau cadwraeth, ond y gobaith yw y bydd y mater yn cael ei ddatrys yn fuan.
- ♦ Roedd y Cynghorydd Butler wedi bod i gyfarfod o Grŵp Cysylltu MHC ac mae Llangwyfan gyda 72 o drigolion a thua 300 aelod staff.
- ♦ Mae'r gwaith yng Nghae Nant wedi'i gwblhau ac mae'r Cynghorydd wedi

gwneud arolwg o farn y defnyddwyr. Cafwyd ymateb ffafriol iawn. Mae'r Cynghorydd Parry wedi cytuno i hau hadau ar y darnau pridd oedd wedi'i heffeithio a bydd y Gymdeithas Chwaraeon a Phêl-droed yn prynu cloeon i'r gatiau. Mae'r Gymdeithas, perchennog y meinciau, wedi cael gwybod am y rhai peryglus, ac maen

Cyfethol aelodau

Mae yna ddwy sedd wag ar y cyngor cymuned – os yr ydych yn teimlo yr hoffech ymgeision a gweld os ydych yn gymmwys drwy bod yn gweithio a byw yn y gymuned anfonwch e-bost at rbynd1@gmail.com erbyn 9 Hydref.

Mae'r gwaith ar Bont Llundain wedi ei gwblhau. Agorwyd y ffordd i gerbydau fin nos dydd Gwener, 25 Medi.

